



# Y Brifysgol Agored Siarter Myfyrwyr



# Cynnwys

<b>Rhagair</b>	3
<b>Siarter Myfyrwyr</b>	4-7
Rydym yn trin ein gilydd ag urddas a pharch	4
Ein nod yw ysbrydoli a galluogi dysgu	5
Rydym yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ddysgu	6
Rydym yn cydweithio er mwyn sicrhau cenhadaeth y Brifysgol ac i hyrwyddo gwerthoedd y Brifysgol	7
<b>Gwybodaeth bellach</b>	8

# Rhagair



Mae'r Brifysgol Agored yn fwy na dim ond lle i ddysgu - mae'n gymuned.



Fel aelodau o'r gymuned mae gennym gyfrifoldebau tuag at ein gilydd, cyfrifoldebau, os ydym oll yn eu cyflawni, sy'n galluogi myfyrwyr i gyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r siarter hon, a ddatblygwyd ar y cyd rhwng y Brifysgol a Chymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol Agored, yn nodi'r cyfrifoldebau hyn a'r hyn y gallwn ei ddisgwyl oddi wrth ein gilydd. Er ei fod yn rhoi cysylltiadau â rheoliadau a pholisiau'r Brifysgol Agored a Chymdeithas y Myfyrwyr, datganiad gwerthoedd ydyw yn hytrach na llyfr rheolau. Mae'n disgrifio'r ffordd y dylai aelodau o'r Brifysgol Agored - staff a myfyrwyr - gydweithio er budd pawb.

Wrth i'r Brifysgol newid a datblygu, mae ein cyfrifoldebau fel aelodau yn newid a datblygu. Byddwn yn adolygu'r Siarter hon bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu ein hanghenion a'n heriau cyfredol, tra'n parhau i gefnogi'r prif nod o helpu ein myfyrwyr i lwyddo.



Martin Bean, Is-Ganghellor

Marianne Cantieri, Llywydd OUSA

# Rydym yn trin ein gilydd ag urddas a pharch

Fel aelodau o gymuned groesawgar a chynhwysol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- gwerthfawrogi amrywiaeth a chydabod bod pobl yn cyfrannu safbwyntiau, syniadau, gwybodaeth a diwylliant gwahanol a bod yr amrywiaeth hwn yn gryfder;
- herio anghydraddoldebau, rhagweld ac ymateb yn gadarnhaol i anghenion ac amgylchiadau gwahanol;
- parchu hawliau unigolion i arddel credoau a safbwyntiau gwahanol ac i'w mynegi drwy gyfrannu'n briodol at ddadleuon a thrafodaethau academaidd;
- parchu cyfrinachedd a defnyddio'r wybodaeth a roddwyd i ni at y dibenion cyfreithiol bwriadedig yn unig.



# Ein nod yw ysbrydoli a galluogi dysgu

Fel aelodau o'r gymuned academiaidd, byddwn yn gwneud y canlynol:

- darparu cwricwlwm addysgu uwch sy'n cynnig dewis, sy'n gwneud dysgu ac ymchwil yn hygyrch ac sy'n diwallu anghenion ein myfyrwyr a'r cymdeithasau rydym yn byw ac yn gweithio ynddynt;
- darparu deunyddiau dysgu o bell a hyfforddiant doethurol o ansawdd uchel, ac anelu at gefnogi pob myfyriwr mewn ffordd sy'n briodol iddynt ddatblygu fel dysgwr neu ymchwilydd anibynnol;
- datblygu a manteisio ar dechnolegau newydd sy'n galluogi pobl i ddysgu mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion, o ddarparu dulliau dysgu hyblyg sy'n cyd-fynd â bywydau myfyrwyr i ymrwymadau i helpu goresgyn rhwystrau i astudio;
- cynnal safonau academiaidd uchel drwy asesu teg a heriol;
- datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth drwy ymchwil a gweithgareddau ysgolheigaidd sy'n cyfrannu at y gymuned ymchwil fyd-eang ac sy'n meithrin enw da'r Brifysgol fel canolfan o ragoriaeth academiaidd.



# Rydym yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ddysgu

Fel myfyrfwyr sy'n aelodau o'r gymuned, byddwn yn gwneud y canlynol:

- defnyddio'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad a roddwyd i ni am astudio gyda'r Brifysgol Agored a'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael i gynorthwyo ein dysgu a, lle y bo'n briodol, wella ein cyflogadwyedd;
- ymrwmo i astudio, defnyddio'r deunyddiau a'r adnoddau dysgu sydd ar gael i ni er mwyn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer astudio ar y lefel briodol ac i gwblhau'r dysgu, yr ymchwil a'r gweithgareddau asesu a drefnwyd;
- cyfrannu at, a chynorthwyo eraill i gyfrannu at, rannu syniadau academaidd wrth gydweithio â'n gilydd;
- defnyddio'r cymorth addysgu a dysgu, yr oruchwyliaeth a'r adborth a ddarperir mewn ffordd gyfrifol tra'n cadw cyfrifoldeb personol am ein dysgu a'n hymchwil ein hunain, gan gadw'r safonau uchaf o ran gonestrwydd academaidd.





# Rydym yn cydweithio er mwyn sicrhau cenhadaeth y Brifysgol ac i hyrwyddo gwerthoedd y Brifysgol

i fod yn agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau;  
i fod yn gynhwysol, arloesol ac ymatebol.

Fel aelodau o gymuned gydweithiol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- cefnogi hawliau myfyrwyr i gymryd rhan yn y gwaith o lywodraethu'r Brifysgol drwy Gymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol Agored;
- cefnogi Cymdeithas Myfyrwr y Brifysgol Agored i ymgysylltu â'i holl aelodau i feithrin cymuned myfyrwyr fywiog ac i hyrwyddo eu buddiannau addysgol a chymdeithasol;
- trafod ag aelodau, annog cyfranogaeth a chroesawu adborth adeiladol er mwyn gwella profiadau'r myfyrwyr;
- cynnal a gwella safonau ac enw da ein Prifysgol, cydnabod cyfraniadau y mae'r holl aelodau yn eu gwneud i'w lwyddiant;
- darparu gwybodaeth amserol a chywir am unrhyw newidiadau rydym yn eu gwneud sy'n effeithio ar brofiad y myfyrwyr, yn cynnwys gwybodaeth am gostau astudio;
- ymrwymo i ddyfodol economaidd ac amgylcheddol cynaliadwy ar gyfer ein Prifysgol;
- darparu a defnyddio dulliau teg ac agored o ymdrin â'n pryderon a'n cwynion er mwyn dysgu oddi wrthynt er mwyn gwella'r hyn a wnawn;
- annog graddedigion a chyn-fyfyrwyr i barhau i fod yn rhan o gymuned y Brifysgol Agored drwy'r gymdeithas cyn-fyfyrwyr.



# Gwybodaeth bellach

## Siarter y Myfyrwyr

Am fwy o wybodaeth am Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored, ymwelwch â'r wefan:

[www.open.ac.uk/students/charter](http://www.open.ac.uk/students/charter)

## Yr Iaith Gymraeg

I gael rhagor o wybodaeth am y canlynol:

- cyfrifoldebau'r Brifysgol Agored o ran Deddf yr Iaith Gymraeg
- cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
- ymgysylltu'r Brifysgol Agored â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

ewch i wefan y Brifysgol Agored yng Nghymru: [www.open.ac.uk/cynllun-iaith-gymraeg](http://www.open.ac.uk/cynllun-iaith-gymraeg)

## Adborth

Hoffem glywed am beth yr ydych yn feddwl am eich profiadau gyda'r OU â pha mor dda rydym yn cyflawni'r ymrwymïadau'r Siarter Myfyrwyr. Gallwch anfon eich adborth atom drwy ddefnyddio'r ffurflen ar: [www.open.ac.uk/students/charter/feedback](http://www.open.ac.uk/students/charter/feedback)

## Cysylltwch â

Y Brifysgol Agored  
Walton Hall  
Milton Keynes  
MK7 6AA

Ffôn: +44 (0)1908 274066  
Gwefan: [www.open.ac.uk](http://www.open.ac.uk)

